11 Rhagfyr 2025

**ATISN 26373 – Cenedl Noddfa**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 13 Tachwedd 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Darparu copïau o'r holl ohebiaeth ynghlwm â'r ymgyrch i berswadio Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n Genedl Noddfa hyd at 26 Mawrth 2013.

- Darparu agendau, papurau a chofnodion pob cyfarfod ar bwnc 'Cenedl Noddfa' o ddau gyfnod Carwyn Jones fel Prif Weinidog Cymru.

**Ein hymateb**

Yn dilyn fy asesiad cychwynnol, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Bydd chwiliad electronig o system fewnol Llywodraeth Cymru am y wybodaeth o fewn y paramedrau rydych wedi'u rhoi yn dychwelyd sawl cofnod, ac ni fydd rhai ohonynt yn berthnasol i'ch cais, os o gwbl.

Nododd chwiliad electronig cynradd o ddogfennau sy'n ymwneud â'ch meini prawf cyn mis Mawrth 2013 tua 500 o ganlyniadau.

Yn ôl amcangyfrif o gymryd 5 munud i ymchwilio pob dogfen i benderfynu a yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol i'ch cais ac yna'i thynnu, byddai'n cymryd dros 41 awr.

O ganlyniad, rwyf wedi penderfynu peidio â darparu'r wybodaeth i chi.

Mae'n bosibl yr hoffech fireinio eich cais drwy ddatgan yn fwy penodol pa wybodaeth yr hoffech ei chael, gan gynnwys unrhyw ddyddiadau neu gyfnod amser sy'n berthnasol i'r wybodaeth. Efallai yr hoffech ganolbwyntio eich cais drwy ofyn am y wybodaeth benodol rydych chi'n chwilio amdani neu ganolbwyntio ar y cwestiwn rydych chi am gael ei ateb, yn hytrach na chanolbwyntio ar ble rydych chi'n meddwl y gellid cael y

wybodaeth – hynny yw, canolbwyntio ar y wybodaeth benodol yn hytrach na gofyn am bob cyfathrebiad yn gobeithio ei fod yn cynnwys yr hyn rydych chi'n chwilio amdano.

Os byddwch yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael eu drin fel cais newydd.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir